



COFIWCH ANWYLIAID YN GWASANAETH GŴYL Y GOLEINI 2026
CANOLFAN SIOPA ST ELLI

Mae Ymddiriedolaeth Hosbis Tŷ Bryngwyn yn falch o gyhoeddi bod Gwasanaeth Gŵyl y Goleini eleni yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Siopa St Elli, Llanelli, ddydd Llun 23 Tachwedd 2026 am 6.30pm.

Croesewir y gynulleidfa gan Fand y Fyddin lachawdwriaeth, a fydd hefyd yn cyfeilio i'r canu cymunedol. Bydd perfformiadau hefyd gan Meibion Elli, Côr Merched Lleisiau'r Cwm (Dyffryn Aman) ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes.

Mae Ymddiriedolaeth Hosbis Tŷ Bryngwyn a'r tîm codi arian yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu ein cefnogwyr ar y noson sy'n addo bod yn achlysur dwys a theimladwy.

Hoffem ddiolch yn fawr i Mr Alun Littlejohns o CK Supermarkets Cyf ac i reolwyr Canolfan Siopa St Elli am ein galluogi i gynnal y digwyddiad hwn yn y Ganolfan.

Bydd ffurflenni ar gael yn y Gwasanaeth ar gyfer rhoddion er cof am anwylyn, ac oddi wrth Ysgrifennydd Cronfa Apêl yr Hosbis ar 07548 220122 (e-bost Secretary@tybryngwyn.org.uk) neu i'w lawrlwytho o wefan Hosbis Tŷ Bryngwyn (www.tybryngwyn.org.uk).

Hefyd, rhwng 12 Hydref a 23 Tachwedd, bob dydd Llun a dydd Iau rhwng 10am a 2pm wrth fynedfa'r Farchnad Dan Do neu yn swyddfeydd Davies Craddock Estates, 18 Murray St, Llanelli.

Diolch am gefnogi Hosbis Tŷ Bryngwyn